Dechrau Da
Bookstart
BookTrust Cymru



# Yn Cyflwyno Dechrau Da

## Nodiadau ar gyfer myfyriwr-ymwelwyr iechyd

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Yn Cyflwyno Dechrau Da

## Ynglyn â'r BookTrust

Y BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU. Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyrraedd 3.9 miliwn o blant ledled y DU â llyfrau, adnoddau a chefnogaeth. Rydyn ni wedi ymrwymo i gael plant i ddarllen. Ein blaenoriaeth yw cael mwy o blant i deimlo'n gyffrous ynglyn â llyfrau, rhigymau a straeon –oherwydd, os yw darllen yn hwyl, fe fydd plant eisiau ei wneud.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n dosbarthu mwy na 175,000 o lyfrau wedi'u dewis yn ofalus i blant yng Nghymru, a mwy na 230,000 o adnoddau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein gwaith yn cefnogi pob teulu yng Nghymru o flwyddyn gyntaf bywyd eu plentyn trwodd i ddiwedd eu blwyddyn Dderbyn yn yr ysgol, gan ddechrau â rhodd o ddau o lyfrau'r BookTrust ym mhecyn Dechrau Da Babi. Mae llyfrau, canllawiau ac adnoddau'n cael eu darparu trwy gyfrwng ymarferwyr iechyd, llyfrgelloedd, ysgolion ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi â chyngor ac adnoddau i annog yr arfer o ddarllen. Rydyn ni eisiau i bob plentyn gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Dyna pam ein bod ni mor angerddol ynglyn â chael plant i ddarllen.

## Ynglyn â Dechrau Da

Mae Dechrau Da ar gael i bob plentyn yng Nghymru.

Mae Dechrau Da yn annog teuluoedd i rannu a mwynhau llyfrau, straeon a rhigymau o'r ychydig fisoedd cyntaf mewn bywyd a gydol y blynyddoedd cynnar.

Gwneir rhodd o becynnau Dechrau Da Babi yn 6 mis oed, a'r bwriad yw gwneud rhodd o becynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn 27 mis oed. Maen nhw wedi'u cynnwys mewn cysylltiadau sydd wedi'u trefnu dan Raglen Plant Iach Cymru.

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru Gydlynydd Dechrau Da yn eu Gwasanaethau Llyfrgell sy'n gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd i ddosbarthu pecynnau i deuluoedd ledled Cymru.

Nod rhaglen Dechrau Da yng Nghymru yw galluogi pob mam, dad a gofalwr i ysbrydoli cariad at lyfrau, rhigymau a straeon mewn babis a phlant ifanc, rhwng 0 a 3 oed.

Mae Ymwelwyr Iechyd yn y sefyllfa ddelfrydol i helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydyn nhw fel arall, o bosibl, yn debygol o dderbyn negeseuon ynglyn â manteision darllen gyda'i gilydd.




### Dyma ddeilliannau'r rhaglen

- Cynyddu dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o bwysigrwydd rhannu llyfrau, straeon a rhigymau
- Gwneud rhannu llyfrau, rhigymau a straeon yn hwyl i deuluoedd
- Gwella hyder rhieni a gofalwyr wrth rannu llyfrau â'u babi/plentyn ifanc
- Ehangu gwybodaeth rhieni a gofalwyr am ffyrdd i gael gafael ar lyfrau, straeon a rhigymau a'u rhannu â'u babi
- Cefnogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu'r arfer o ddarllen gyda'u plant o enedigaeth
- Galluogi partneriaid i gyfleu negeseuon mewn modd o ansawdd uchel i rieni a gofalwyr ynglyn â rhannu darllen
- Cynyddu hyder a pharodrwydd rhieni a gofalwyr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau Cymraeg a Saesneg â'u babi/plentyn ifanc

**Mae Dechrau Da yn fwy na phecyn ffisegol** – mae'n rhaglen sy'n annog datblygiad cymdeithasol, iaith gynnar, sgiliau cyn-llythrennedd a chyfathrebu trwy fwynhau llyfrau, straeon a rhigymau.

Rydyn ni eisiau i Ymwelwyr Iechyd ddefnyddio'r hyfforddiant a'r adnoddau hyn i sicrhau bod negeseuon Dechrau Da yn cael eu cyfleu i rieni a gofalwyr pan maen nhw'n derbyn eu pecynnau. Fe fydd yr anogaeth hon gan weithiwr proffesiynol y maen nhw'n ei barchu'n helpu i gynyddu gallu teuluoedd i gefnogi datblygiad cynnar eu plentyn trwy ddefnyddio llyfrau, straeon a rhigymau.

Mae pob pecyn Dechrau Da yng Nghymru'n cynnwys llyfrau Saesneg a llyfrau dwyieithog. Gallwch chi gael gwybod sut i gyflwyno'r Gymraeg o enedigaeth yn https://cymraeg.gov.wales



# Manteision rhannu darllen yn gynnar

Nod Dechrau Da yw galluogi pob mam, dad a gofalwr yng Nghymru i ysbrydoli cariad at lyfrau, rhigymau a straeon ymhlith babis a phlant ifanc.

**Pam fod hyn yn bwysig:**

Manteision rhannu darllen yn gynnar (i gael rhagor o wybodaeth ac ymchwil fanwl, gwelwch yr adran adnoddau ychwanegol)

**Datblygiad cymdeithasol-emosiynol**

- Mae rhannu darllen yn gynnar yn cefnogi datblygiad plentyn trwy ddarparu cyfleoedd i feithrin perthynas agos. Mae babis yn hoff iawn o gael eu dal yn agos a chlywed llais rhiant neu ofalwr.
- Mae bod â threfn bob dydd a rhythm i'r diwrnod yn gallu helpu plant i fagu hyder ac annibyniaeth.
- Os yw rhiant yn edrych fel pe bai'n ei chael hi'n anodd cael trefn bob dydd, mae'r pecyn Dechrau Da yn cynnig cyfle i ddechrau sgwrs am gyflwyno digwyddiadau rheolaidd i ddiwrnod eu babi.
- Mae sefydlu trefn ddarllen yn helpu plentyn ifanc i ddeall ei ddiwrnod a gwybod beth i'w ddisgwyl o'i amgylchedd, ac mae'n gallu helpu i wneud i blentyn deimlo'n fwy hyderus a diogel. Mae hyn yn gallu cefnogi hunan-barch a llesiant.
- Mae rhannu llyfr neu stori yn y nos yn ffordd ddelfrydol o setlo plentyn. Pan edrychwyd ar Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Dechrau Da yn 2010, gwelwyd bod llawer o rieni'n dweud bod darllen gyda'u plentyn yn cael effaith leddfol.
- Mae rhannu darllen yn gallu cynyddu'r amser o ansawdd y mae plentyn a rhieni/gofalwyr yn ei dreulio gyda'i gilydd.
- Mae straeon a siarad am lyfrau'n gallu helpu i ddatblygu empathi ac mae'n annog plant i gydnabod eu teimladau a theimladau pobl eraill, a siarad amdanyn nhw.







## Datblygiad Gwybyddol

- Mae eistedd yn dawel gyda'ch gilydd yn cefnogi gwrando, canolbwyntio a rhoi sylw.
- Fe fydd babis a phlant yn dechrau rhagweld eu hoff ddarluniad/cymeriad/ rhan o'r stori ac fe fyddan nhw'n defnyddio'u cof i gofio beth sy'n digwydd nesaf.
- Mae siarad am lyfr, edrych ar luniau, cymeriadau a rhediad stori'n gallu cefnogi dychymyg a meddwl plentyn bach.
- Mae cael straeon yn helpu i gyfoethogi'r dychymyg ac mae'n rhoi gwybodaeth am amrywiaeth o brofiadau y mae plant yn gallu tynnu arnyn nhw i roi hyder iddyn nhw.
- Mae straeon yn gallu rhoi fframwaith i blant y gallan nhw ddehongli ymddygiadau oddi mewn iddo a rhoi ystyr iddyn nhw.
- Mae darparu amgylchedd dysgu cyfeillgar yn y cartref yn helpu plant i roi'r byd o'u hamgylch ar brawf a dysgu amdano, ac i ddatblygu a chynnal sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd cryf.

## Datblygiad Ieithyddol

- Mae annog rhieni a gofalwyr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau'n gallu gwella sgiliau iaith a chyfathrebu plentyn
- Mae defnyddio lleisiau doniol a synau anifeiliaid yn dod â stori yn fyw ac mae'n helpu plant i ddod i adnabod geiriau o'u swn o oedran cynnar
- Mae clywed stori'n cael ei darllen yn uchel, dysgu caneuon a hwiangerddi'n gallu annog plant i gael geirfa dda
- Mae rhannu darllen yn gallu annog cymryd eich tro a datblygu sgiliau gwrando.

## Datblygiad Corfforol

- Mae rhannu llyfrau o enedigaeth yn cefnogi datblygiad cydsymudiad corfforol trwy droi tudalennau, codi fflapiau a phwyntio bys at ddelweddau.
- Mae babis yn hoffi archwilio llyfrau'n gorfforol gan ddefnyddio a datblygu eu sgiliau synhwyraidd-ymudol trwy sugno, patio, anwesu neu grafu llyfrau. Mae sgiliau trin a thrafod yn datblygu'n gyflym trwy flwyddyn gyntaf babi.



# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Babi



**Trafodwch** y llyfrau â'r rhiant. Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n darllen neu'n canu rhigymau a chaneuon i'w babi.

Os ydyn nhw, trafodwch beth y maen nhw'n ei wneud a beth sy'n gweithio iddyn nhw. Efallai y byddwch chi eisiau eu hannog nhw i ddarllen yn rheolaidd, datblygu trefn ddarllen/rigymu neu, os nad ydyn nhw'n gwneud hyn, popeth yn iawn! Nawr ydy'r amser i ddechrau.

**Esboniwch** sut y mae darllen yn uchel a rhannu llyfr yn gallu cyfrannu at feithrin perthynas agos, ac at ddatblygiad cymdeithasol-emosiynol, lleferydd ac iaith.

Byddwch yn **fodel** o sut y gellir rhannu llyfr â'r babi fel bod rhieni/gofalwyr yn gallu gweld a chlywed hyn. Mae defnyddio'r pecyn i fachu sylw'r babi yn ystod eich ymweliad yn un o'r pethau mwyaf defnyddiol y gallwch chi ei wneud!

**Awgrymwch** sut i sefydlu trefn ddarllen – mae neilltuo rhyw 10 munud bach y dydd ar ôl bath, cyn gwely neu tra bo cinio'n goginio, neu ddod o hyd i amser tawel i gwtsio i rannu llyfr o fudd i'r babi a'r rhieni. Helpwch nhw i nodi beth allai weithio iddyn nhw.

**Cofiwch TEMA:**

**Trafod**
**Esbonio**
**Modelu**
**Awgrymu**

### Awgrymiadau ar gyfer gwneud rhodd

Os nad oes llawer o amser gennych chi, gwnewch yn siwr eich bod chi'n:

- Cyfleu neges o ansawdd uchel, cynnes ac anogol ynglyn â llawenydd a manteision rhannu llyfrau
- Dangos cynnwys y pecyn
- Annog teuluoedd i ddefnyddio'u llyfrgell
- Rhoi gwybod iddyn nhw am unrhyw ddigwyddiadau lleol, fel amseroedd rhigwm, neu gyfleoedd perthnasol i ddysgu fel teulu

# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

**Trafodwch** drefn ddarllen y teulu–gofynnnwch i'r rhiant pryd y maen nhw'n darllen, beth ydy hoff lyfr y plentyn? Os nad oes gan deuluoedd unrhyw lyfrau yn y cartref, fe allech chi ofyn sut y gwnaeth y plentyn fwynhau llyfrau Dechrau Da Babi, a'u cyfeirio at eu llyfrgell leol fel lle gwych i ddewis llyfrau i'w mwynhau gyda'i gilydd.

**Esboniwch** fod straeon, llyfrau a rhigymau'n gallu helpu datblygiad plentyn – mae eu cynnwys yn y drefn bob dydd yn gallu helpu eu plentyn i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fwynhau ysgol.

Byddwch yn **fodel** o sut i ddewis llyfr a dangoswch sut y gallen nhw ddarllen gyda'i gilydd – gofynnwch i'r rhiant eistedd gyda'r plentyn, trafod y lluniau, a'r lliwiau. Gwnewch synau anifeiliaid neu leisiau doniol i ddod â'r stori yn fyw ac i wneud i'r plentyn chwerthin.

**Awgrymwch** fod y rhieni'n annog y plentyn i ddweud y stori – beth sy'n digwydd yn y lluniau? Beth y maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?





### Awgrymiadau ar gyfer gwneud rhodd

Os nad oes llawer o amser gennych chi, gwnewch yn siwr eich bod chi'n:

- Rhoi'r bag i'r plentyn a'i helpu i ddewis llyfr i edrych arno
- Dangos sut i ddarllen i'r plentyn – siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llyfr, y lliwiau, y cymeriadau, dyfalu beth sy'n digwydd nesaf, defnyddio lleisiau a synau doniol
- Annog rhieni i gael trefn ddarllen reolaidd – 10 munud y dydd os yn bosibl
- Annog rhieni i ddefnyddio'u llyfrgell

# Gweithgaredd dynwared arfer

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r cyfle ichi wneud rhodd o becyn Dechrau Da, ystyried y negeseuon y byddwch chi'n eu defnyddio a sut y byddwch chi'n gwneud rhodd o'r pecyn.

1. Rhannwch yn grwpiau o 3 a phenderfynu pwy ydy A, B a C
2. Yn y rownd gyntaf, A ydy'r rhiant neu'r gofalwr, B ydy'r Ymwelydd Iechyd a C ydy'r sylwedydd sydd hefyd yn cadw llygad ar yr amser. Fe ddylai'r sylwedydd fod â'r dalenni i fyfyrwyr, sef 'Pecyn Dechrau Da Babi' a 'Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar' wrth lawr fel ei fod yn gallu gweld y pwyntiau y dylai'r Ymwelydd Iechyd roi sylw iddyn nhw.
3. Gall myfyrwyr ddewis un o'r senarios a ganlyn:
   - Oedran y babi – gallai fod yn 6 mis oed neu'n 27 mis oed, neu'n agos at yr oedrannau hyn
   - Mam yn ei harddegau sy'n byw ar ei phen ei hun heb unrhyw gefnogaeth ehangach gan ei theulu
   - Mam sydd ddim yn siarad Cymraeg, ond y mae ei gyr a'i deulu'n siarad Cymraeg gartref ac â'r plant
   - Rhiant sy'n athro/athrawes ysgol uwchradd a dyma'i blentyn/ei phlentyn cyntaf
   - Gofalwr o deulu ag anghenion cymhleth
   - Gofalwr sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel mamiaith
   - Mam rydych chi'n amau sydd ddim yn gallu darllen yn dda iawn
   - Rhiant â phlentyn sydd â thri o frodyr a chwiorydd hyn

   Neu gallwch chi greu'ch enghraifft eich hun
4. Cymerwch ryw bum munud i gynllunio'r gweithgaredd dynwared

   Gofynnwch iddyn nhw ystyried;

   - Beth fyddwch chi'n ei ddweud, sut fyddwch chi'n ei ddweud, sut fyddech chi'n ymddwyn o amgylch y plentyn a'r rhiant, sut fydd y rhiant/gofalwr yn teimlo?
5. 'Actiwch' y weithred o wneud rhodd o'r pecyn gan ddefnyddio naill ai'r pecyn Babi neu'r pecyn Blynyddoedd Cynnar
6. Amser i fyfyrio

   Rhai cwestiynau i fyfyrio yn eu cylch:

   - A wnaeth yr ymwelydd iechyd ddweud popeth roedd eisiau ei ddweud?
   - Wnaethon nhw roi sylw i 3 neges allweddol a oedd yn briodol i'r pecyn roedden nhw'n gwneud rhodd ohono? Pa mor briodol oedd eu hiaith a'u tôn?
   - Sut fyddech chi'n gwneud pethau'n wahanol y tro nesaf?
   - Cytunwch ar beth rydych chi wedi'i ddysgu a rhoi adborth i'r grwp. Os oes yna amser, newidiwch rolau a rhoi cynnig arall arni.

## Cwis chwim

Rhoi'ch gwybodaeth ar brawf am raglen Dechrau Da yng Nghymru

**Cliciwch yma**

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Cydweithio

- Mae BookTrust Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Llyfrgell ac Ymwelwyr Iechyd i gyflawni rhaglen Dechrau Da ledled Cymru
- Mae'r rhaglen yn un gyffredinol  ac mae gan bob babi 6 mis oed a phob plentyn 27 mis oed yng Nghymru hawl i becynnau Dechrau Da.
- Mae Cydlynwyr Dechrau Da yn gweithio'n agos ag Ymwelwyr Iechyd i sicrhau bod gan glinigau ac ysbytai ddigon o stoc.
- Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyfrif stoc yr holl becynnau mewn awdurdodau lleol (gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Llyfrgelloedd).
- Mae hyn yn rhan hanfodol o'n proses rheoli stoc ac rydyn ni'n defnyddio'r cyfrif hwn i gynllunio sawl pecyn fydd angen eu harchebu a'u cyflenwi fel bod pob plentyn yn gallu derbyn un.
- Mae cyfrif stoc hefyd yn rhan allweddol o'n proses monitro ac adrodd ar gyfer ein harianwyr, sef Llywodraeth Cymru.
- Mae Dechrau Da yn cael ei reoli ychydig yn wahanol ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae Llyfrgelloedd yn gweithio'n agos â chysylltwyr allweddol yn y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd i reoli stoc pecynnau Dechrau Da.
- Mae'r mwyafrif o lyfrgelloedd yn cynnig amser rhigwm a digwyddiadau amser stori rhad ac am ddim sy'n addas i fabis a phlant bach. Does dim ots os ydy'ch babi neu'ch plentyn yn swnllyd a dydyn nhw ddim yn codi dirwyon am fynd â llyfrau plant yn ôl yn hwyr. Mae dewis llyfrau newydd yn rheolaidd yn ffordd ddifyr o sefydlu trefn ddarllen.

### Pam fod hyn yn bwysig:

- Mae llyfrgelloedd yn lle gwych i rieni newydd fynd iddo i ddod o hyd i adnoddau, cyfarfod â ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd. Mae ymchwil wedi dangos bod mynychu sesiynau rhigwm yn gallu bod o fudd i iechyd meddwl mamol ac mae'n darparu cefnogaeth gymdeithasol ac emosiynol i rieni newydd.



# Adnoddau ychwanegol sydd ar gael i Ymwelwyr Iechyd

### Siapiau Cyntaf Eich Babi


Llyfryn sy'n cynnwys delweddau du a gwyn i fachu sylw babis newydd-anedig ac awgrymiadau ychwanegol ar gyfer rhieni. Gellir gwneud rhodd o'r rhain pan mae babis yn 8 wythnos oed.

Gall Ymwelwyr Iechyd, Bydwragedd neu Gofrestrwyr ddosbarthu'r llyfrynnau

Anogwch y rhieni i:

- gwtsio â'u babi a chadw golwg ar eu hymateb i wahanol dudalennau yn y llyfryn
- cadw ati i rannu'r llyfryn â'u babi drosodd a throsodd fel eu bod nhw'n dechrau adnabod y delweddau
- peidio â phoeni os ydy eu babi yn blino'n hawdd wrth edrych ar y llyfryn

Siaradwch â'ch athro arfer arweiniol ynglyn â ph'un a ydy'ch awdurdod lleol chi yn rhan o raglen gwneud rhodd o Siapiau Cyntaf Eich Babi.




### Llyfrau Iaith Ddeuol

Mae'r BookTrust wedi ymrwymo i annog teuluoedd o bob diwylliant i ymgysylltu â llyfrau. Rydyn ni eisiau sicrhau bod llyfrau ar gael i bob plentyn a'u bod nhw'n cael y cyfle i fwynhau darllen. Rydyn ni'n cynnig llyfrau a chanllawiau iaith ddeuol i deuluoedd y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw, fel bod yr un negeseuon Dechrau Da pwysig ar gael iddyn nhw.

### Pam fod hyn yn bwysig

Mae ymchwil yn argymell bod teuluoedd yn siarad ac yn rhannu llyfrau yn eu mamiaith yn ogystal â'r ieithoedd sy'n cael eu siarad fwyaf yn eu hardal (h.y. Cymraeg a Saesneg).

Mae cynnig llyfrau iaith ddeuol fel rhan o raglen Dechrau Da yn ffordd wych i gyflwyno'r syniad o rannu llyfrau i rieni a gofalwyr sydd o bosibl ddim yn teimlo'n hyderus i wneud hynny'n llwyr yn Saesneg. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ymarferwyr gyfeirio rhieni i'r lleoedd y gallan nhw gael gafael ar fwy o deitlau iaith ddeuol, fel eu llyfrgell leol.

### Yr hyn y mae Dechrau Da yn ei gynnig:

Mae ein Rhaglen Dechrau Da yn cynnig nifer gyfyngedig o lyfrau iaith ddeuol mewn mwy na 30 o ieithoedd cymunedol, a gellir eu gosod i mewn i becyn Dechrau Da Babi neu becyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar.

Siaradwch â'ch Cydlynydd Dechrau Da i gael rhagor o wybodaeth am sut i archebu llyfrau iaith ddeuol.

# Canllawiau ychwanegol ar gyfer gwneud rhodd o Becynnau Dechrau Da

## Pecyn Dechrau Da Babi

Mae'n bwysig agor y pecyn a thynnu'r cynnwys allan gyda'r rhiant neu'r gofalwr.

Mae'n ddelfrydol dangos o leiaf un o'r llyfrau i'r plentyn – i rieni sydd heb feddwl am rannu straeon, mae gweld llygaid plentyn yn goleuo'n neges rymus iawn.

I rieni y mae lefel eu llythrennedd yn isel neu sydd â diffyg hyder, esboniwch sut y gallan nhw ddefnyddio'r llyfrau i edrych ar y lluniau a siarad â'u plentyn am beth y maen nhw'n gallu ei weld.

Rhowch wybod i deuluoedd lle mae eu llyfrgell agosaf a phryd y mae sesiynau Amser Rhigwm neu Amser Stori'n cael eu cynnal – maen nhw'n achlysuron cymdeithasol delfrydol i rieni/gofalwyr a'u plant. Fe fydd gan lyfrgelloedd lyfrau am rianta hefyd, gyda cyngor ar fwydo a chysgu a gwybodaeth am grwpiau cefnogi lleol.

### Defnyddio'r llyfrau babi yn ystod y sesiwn archwilio datblygiad 6 mis oed

Defnyddiwch y llyfr i fachu sylw'r plentyn eich hun ac anogwch y rhiant/gofalwr i wylio sut y maen nhw'n ymateb yn gymdeithasol neu drwy ddefnyddio iaith.

Gwyliwch yr olwg ar eu hwyneb am ymatebion – ydyn nhw'n gwenu/yn dangos pleser/yn chwerthin?

Gwyliwch sut y maen nhw'n defnyddio'u sgiliau trin a thrafod i drin y llyfr, gan gadw llygad yn agored am sgiliau echddygol manwl. Mae llyfrau bwrdd yn gallu bod yn bleserus i gyffwrdd â nhw ac maen nhw'n annog babis i ryngweithio a datblygu eu sgiliau echddygol.

Gellir annog iechyd meddwl da y fam a'r plentyn trwy'r profiadau positif y maen nhw'n eu rhannu wrth edrych ar lyfr gyda'i gilydd.

Rhannwch y pethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw â'r rhiant/gofalwr – dangoswch iddyn nhw sut mae eu plentyn yn gwenu, yn ymateb i'r llyfr, ac ati.

### Negeseuon ychwanegol i'w rhannu â rhieni/gofalwyr:

Fe fydd rhannu llyfr â'ch babi yn eich helpu chi i deimlo'n agos ac yn annog meithrin perthynas agos.

Mae sŵn melodaidd eich llais yn gallu esmwytho babis pan rydych chi'n darllen yn uchel.

Mae lluniau llachar a rhagweld y dudalen nesaf yn gallu cyffroi babis hyn.

Mae babis wrth eu boddau'n clywed eich llais. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gallu canu; mae babis yn mwynhau rhythm a synau hwiangerddi.

Mae llyfrau'n gallu agor sgyrsiau newydd ac yn eich helpu chi i ryngweithio â'ch babi. Ceisiwch wneud lleisiau, synau, golwg wyneb ac ystumiau doniol.

Os ydy babis yn dechrau cysylltu llyfrau â phrofiad cynnes a chariadus, gall hyn eu cefnogi nhw i fod eisiau darllen a mwynhau llyfrau wrth iddyn nhw dyfu'n hyn.

## Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

| |
|---|
| Pan mae plant wedi cyrraedd yr oedran hwn, gallwch chi roi'r pecyn i'r plentyn i'w agor a'i archwilio. |
| Os nad ydy'r rhieni wedi sefydlu trefn ddarllen yn barod, neu os nad oes ganddyn nhw lyfrau yn y cartref, cyfeiriwch nhw at eu llyfrgell leol lle y gallan nhw fenthyca llawer o lyfrau am ddim i'w mwynhau gyda'i gilydd. |
| Anogwch y rhieni/gofalwyr i holi'r plentyn wrth rannu llyfr – Beth maen nhw'n gallu ei weld ar y dudalen? Pa liwiau? Faint ohonyn nhw? Enwau anifeiliaid/cymeriadau. Beth maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd nesaf? |
| Dangoswch sut i ddefnyddio pypedau bys arth Dechrau Da. |

### Defnyddio pecyn y Blynyddoedd Cynnar yn ystod y sesiwn archwilio datblygiad 27 mis oed

| |
|---|
| Gellir defnyddio llyfrau i asesu sgiliau trin a thrafod, fel troi tudalennau'r llyfr. |
| Holwch y plentyn ynglyn â beth sy'n digwydd yn y llyfr i ddangos eu dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch – allan nhw adnabod lliwiau a gwrthrychau, ydyn nhw wedi'u gweld yn y byd go iawn? |
| Ydy'r plentyn yn gwenu/chwerthin ac yn dangos ymatebion emosiynol? |
| Ydy'r plentyn yn gallu dweud wrthych chi beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf? Ydyn nhw'n gwybod rhai o'r geiriau yn y llyfrau neu enwau gwrthrychau? |

### Negeseuon ychwanegol i'w rhannu â rhieni/gofalwyr:

| |
|---|
| Defnyddiwch lyfrau i helpu i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu'ch plentyn. Gofynnwch i'ch plentyn ymuno â'r geiriau a'r ystumiau mewn llyfr. Gofynnwch gwestiynau ynglyn â beth y gallwch chi ei weld yn y lluniau. |
| Anogwch eich plentyn i ddewis beth y mae eisiau ei ddarllen nesaf. Fe fydd hyn yn ei helpu i fwynhau darllen mwy fyth. |
| Peidiwch â phoeni os ydy'ch plentyn eisiau darllen yr un llyfr drosodd a throsodd! Fe fydd hyn yn ei helpu i ddysgu'r iaith yn y stori ac mae'n gallu bod yn gysurlon. |

### Defnyddio llyfrau a rhigymau i gefnogi datblygiad yn 27 mis oed

| |
|---|
| Mae llyfrau a rhigymau'n gallu cefnogi trefn gysgu. Ceisiwch ddefnyddio rhigwm fel 'Twinkle, Twinkle' i ddangos ei bod hi'n amser cysgu neu'n amser gwely – gall hyn fod yn awgrym i helpu'ch plentyn ymdopi â phontio rhwng bod yn effro a gorffwyso a chysgu. Mae cwtsio â'ch gilydd gyda llyfr yn gallu esmwytho'ch plentyn a'i helpu i gysgu. |
| Defnyddiwch lyfrau a rhigymau fel gwobr neu atgyfnerthiad e.e. yn ystod hyfforddiant poti, defnyddiwch rigwm poti/toiled neu ceisiwch gael gafael mewn llyfr difyr am hyfforddiant poti. |
| Mae llyfrau a rhigymau'n gallu helpu i ddal sylw'ch plentyn pan mae'n cael ei ddiddyfnu. |
| Brwsio'ch dannedd: defnyddiwch bypedau arth Dechrau Da i ddangos sut i frwsio dannedd ac i gefnogi ac atgyfnerthu'r pethau i'w gwneud. |
| Defnyddiwch rigymau a chaneuon i gynnwys eich plentyn yn nhrefn bob dydd y teulu (e.e. tacluso, mynd i siopa, mynd i mewn i'r car neu unrhyw gyfnod o newid/o bontio. |

Mae hoff lyfrau a rhigymau'n gallu helpu i ddal sylw neu ddifyrru'ch plentyn pan mae'n aros neu'n bryderus e.e. yn y feddygfa, ar fws neu ar siwrnai hir.

Fe fydd y mwyafrif o leoliadau meithrinfa/gofal dydd yn rhannu llawer o lyfrau a rhigymau. Os ydy'ch plentyn eisoes yn gyfarwydd â'r pethau hyn ac yn eu mwynhau, fe fydd yn ei helpu i bontio rhwng y cartref a'r feithrinfa a'r ysgol.

# Cwestiynau Cyffredin



### Oes yn rhaid i mi wneud rhodd o becynnau Dechrau Da yn 6 mis oed ac yn 27 mis oed, p'un a ydy pethau'n hyblyg?

Mae'r cynnwys yn y pecynnau wedi'i ddatblygu i fod yn briodol i oedran, felly yr argymhelliad ydy eich bod chi'n gwneud rhodd o'r pecynnau mor agos â phosibl at 6 mis oed a 27 mis oed.

Mae gwneud rhodd hwyr o'r pecyn babi'n gallu golygu colli cyfle i siarad am sut mae darllen llyfrau bob dydd yn gallu cyfrannu at ddatblygiad plentyn. Gall hefyd olygu nad ydy rhieni/gofalwyr yn cael eu cyfeirio at sesiynau Amser Rhigwm a sesiynau eraill mewn llyfrgelloedd, lle gallan nhw wneud ffrindiau a dod o hyd i rwydwaith o gefnogaeth.

Fodd bynnag, y peth pwysicaf ydy bod plant yn derbyn eu pecyn, felly os mai dim ond yn gynnar/hwyr rydych chi'n gallu gwneud rhodd ohono yna gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud rhodd yn hytrach na gadael i'r plentyn fynd heb ei becyn.

Sylwch: Mae'r pecynnau a'u cynnwys wedi pasio profion diogelwch ar gyfer plant 6 a 27 mis oed. Os ydych chi'n rhoi pecyn cyn 6 neu 27 mis mae'n hanfodol eich bod chi'n gwirio hyn â'r Ymwelydd Iechyd arweiniol a'i fod/bod yn cymeradwyo hyn i sicrhau bod y pecyn yn briodol.

### Sut ydw i'n cael y pecynnau Dechrau Da ar gyfer y teuluoedd dwi'n gweithio gyda nhw?

Rydyn ni'n dyrannu adnoddau i awdurdodau lleol ar sail eu cyfraddau genedigaethau a gwybodaeth am stoc sydd ar gael (dyna un rheswm pam ei bod mor bwysig cyfrif stoc Dechrau Da!).

Mae'r BookTrust yn cyflenwi pecynnau i bob awdurdod lleol, fel rheol bedair gwaith y flwyddyn ac fel rheol i wasanaethau Llyfrgell. Yna mae timau Llyfrgell ac Ymwelwyr Iechyd yn cydweithio i drefnu sut y caiff pecynnau eu dosbarthu yn eu hardal nhw.

Fe ddylech chi fod â phecynnau Dechrau Da ar gael mewn clinigau/canolfannau ymwelwyr iechyd. Gofynnwch i arweinydd eich tîm lle mae'r pecynnau Dechrau Da yn cael eu storio a sut y gallwch chi archebu mwy os oes angen. Gallwch chi hefyd gysylltu â'ch Cydlynydd Dechrau Da (sydd fel rheol yn gweithio mewn Llyfrgelloedd).

I gael gwybod pwy ydy'ch Cydlynydd Dechrau Da, neu pwy ydy'ch Ymwelydd Iechyd arweiniol ar gyfer Dechrau Da, cysylltwch â booktrustcymru@booktrust.org.uk

### Sut y mae'r BookTrust yn dewis y llyfrau sy'n mynd i mewn i'r pecynnau?

Mae yna banel llyfrau Dechrau Da sy'n cynnwys arbenigwyr llyfrau, llyfrgellwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol. Nid ydy'r BookTrust yn cyhoeddi llyfrau. Mae cyhoeddwyr yn y DU yn cael eu gwahodd i gynnig llyfrau, a fydd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y pecynnau.

### Pam fod y pecynnau sydd gen i'n edrych yn wahanol i'r rhai ar y wefan?

Mae'n bosibl eich bod chi wedi derbyn pecynnau ychydig yn hyn os oes gan eich cynllun Dechrau Da lleol stoc dros ben. Ond peidiwch â phoeni – pa bynnag becynnau y byddwch chi'n eu cael, gallwch chi fod yn siwr y byddan nhw'n cynnwys dau lyfr gwych am ddim (o ddetholiad wedi'i ddewis gan banel annibynnol) i deuluoedd eu rhannu.

### Ble alla' i gael gwybod mwy am gefnogi teuluoedd â'r Gymraeg?

Mae yna recordiadau sain o becynnau Cymraeg Dechrau Da yn www.booktrust.org.uk/cymru, ac i gael rhagor o wybodaeth am gefnogi teuluoedd â'r Gymraeg, gallwch chi fynd i www.meithrin.cymru/cymraeg-for-kids






### Mae gan y teulu dwi'n gweithio â nhw blant hyn hefyd; oes yna unrhyw wybodaeth y galla' i ei rhoi iddyn nhw?

Yng Nghymru, mae plant mewn dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn gallu cymryd rhan yn ein rhaglen Pori Drwy Stori, sy'n cefnogi llythrennedd, llafaredd a rhifedd ac sy'n cael rhieni i ymgysylltu â dysgu. Mae pob ysgol yn derbyn adnoddau am ddim i bob plentyn yn y dosbarth Derbyn. Mae rhyw draean o blant mewn Meithrinfeydd yn cymryd rhan yn y rhaglen. I gael gwybod mwy, ewch i www.booktrust.org.uk/what-we-do/programmes-and-campaigns/poridrwystori/

### Sut ydw i'n cael gwybod am fy llyfrgell leol?

Gallwch chi ddod o hyd i'ch Llyfrgell leol yn https://llyfrgelloedd.cymru. Os y byddwch chi'n taro i mewn neu'n eu ffonio gallan nhw roi gwybodaeth ichi am y digwyddiadau y maen nhw'n eu rhedeg ar gyfer teuluoedd.

### Sut ydw i'n archebu llyfrau iaith ddeuol?

Yn y lle cyntaf, fe ddylech chi siarad â'r Cydlynydd Dechrau Da a fydd yn gallu eu harchebu ar eich rhan, neu gallwch chi anfon e-bost i booktrustcymru@booktrust.org.uk

# Pethau yr Argymhellir eu Darllen



### Ymchwil Allweddol:

**Krishnan & Johnson (2014), A review of behavioural and brain development in the early years: the "toolkit" for later book-related skills,**

Adolygiad y BookTrust, yn amlinellu'r dystiolaeth ynglyn â datblygiad yr ymennydd yn ystod y tair blynedd cyntaf o fywyd, i helpu i ddarparu sail ar gyfer yr oedran gorau i rieni/gofalwyr ddechrau rhannu llyfrau, straeon a rhigymau â'u plant:

www.booktrust.org.uk/globalassets/resources/research/krishnan--johnson-2014-full-report-a-review-of-behavioural-and-brain-development-in-the-early-years-the-toolkit-for-later-book-related-skills-.pdf

**Krishnan & Johnson (2015), Bookstart and health: Strengthening partnerships and knowledge,**

Mae'r astudiaeth hon yn adolygu'r dystiolaeth bresennol ynglyn â'r ymennydd dynol a datblygiad ymddygiadol dros y blynyddoedd cynnar, yn benodol o ran y galluoedd synhwyraidd a gwybyddol sy'n berthnasol i ddefnyddio a mwynhau llyfrau.

www.booktrust.org.uk/globalassets/resources/research/booktrust-bookstart-health-stakeholder-leaflet-march2015.pdf

**Canterbury Christ Church University (2016), The role of the Bookstart Baby gifting process in supporting shared reading,**

Prosiect ymchwil ansoddol i ddarganfod manylion proses gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Babi. Yn benodol, nod y prosiect oedd dod i ddeall mecanweithiau gwneud rhodd, ar draws gwasanaethau proffesiynol, a chasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd gwneud rhodd wrth ddylanwadu ar deuluoedd i rannu llyfrau â babis

www.booktrust.org.uk/globalassets/resources/research/bookstart-baby-report-final-21.7.16.pdf

**Gallwch chi gael gwybod mwy am waith y BookTrust, darllen tystlythyrau gan deuluoedd ac ymarferwyr, a gweld ymchwil sy'n ymwneud â'r rhaglenni a'n gweithgareddau yma:**

www.booktrust.org.uk/what-we-do/impact-and-research/

### Gwybodaeth ychwanegol

www.facebook.com/beginsathome

https://libraries.wales

https://cymraeg.gov.wales

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen